# CYNGOR GWYNEDD COUNCIL



# CYNLLUN YMYRRAETH Y GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH

# 2009-10

www.gwynedd.gov.uk

## CYNNWYS

**DIFFINIADAU ........ 3**
**1.0 CYFLWYNIAD ........ 4**
**2.0 NODAU AC AMCANION CORFFORAETHOL ........ 7**
**3.0 NODAU AC AMCANION Y TÎM GORFODAETH IECHYD A DIOGELWCH ........ 9**
3.1 Nodau ac Amcanion ........ 9
3.2 Nod Allwedd ........ 9
3.3 Amcanion ........ 9
**4.0 IECHYD A DIOGELWCH - GORFODAETH ........ 11**
4.1 Gorfodaeth ........ 11
4.2 Proffil Eiddo Masnachol ........ 11
4.3 Archwiliadau ........ 11
4.4 Damweiniau a Chwynion ........ 12
4.5 Gweithio mewn Partneriaeth gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ........ 13
4.6 Cynlluniau Arbennig ........ 14
4.7 Gweithgareddau Addysgol / Hyrwyddo Iechyd a Diogelwch ........ 15
4.8 Cyngor i Fusnesau ........ 15
4.9 Cysylltu gyda sefydliadau eraill ........ 15
4.10 Ymgynghori â Budd-ddeiliaid a Gweithio mewn Partneriaeth â Nhw ........ 15
4.11 Gweithgareddau Eraill ........ 15
4.12 Gorfodaeth deddfwriaeth ddi-fwg ........ 16
**5.0 ADNODDAU'R ADAIN IECHYD A DIOGELWCH ........ 17**
5.1 Adnoddau ........ 17
5.2 Lefelau Staffio ........ 17
5.3 Siart o Strwythur y Sefydliad ........ 17
5.4 Lefelau'r Arbenigedd ........ 17
5.5 Gwasanaethau Arbenigol ........ 17
5.6 Datblygu Staff ........ 17
5.7 Adnoddau Ariannol 09/10 ........ 18
**6.0 GWASANAETHAU I'W RHOI GAN YR ADAIN IECHYD A DIOGELWCH ........ 19**
6.1 Lefel y Gwasanaeth ........ 19
6.2 Manylion y Gwasanaeth ........ 19
a) Galwadau ........ 19
b) Archwiliadau ........ 19
c) Addysg ........ 20
d) Gwybodaeth ........ 20
e) Blaenoriaethau ........ 20
**7.0 GWAITH SY'N ANGENRHEIDIOL I SICRHAU Y RHODDIR GWASANAETH DIGONOL ... 21**
7.1 Cysondeb ........ 21
7.2 Tryloywder ........ 21
7.3 Targedu a Chyfrannedd ........ 21
7.4 Atebolrwydd (ei gwneud yn glir pwy sy'n gyfrifol) ........ 21
7.5 Medrusrwydd a Hyfforddiant ........ 21
7.6 Cadw Data a Chofnodiadau ........ 21
7.7 Cynaladwyedd ........ 22
**8.0 POLISI GORFODI ........ 23**
8.1 Concordat Gorfodi ........ 23
8.2 Polisi Gorfodi ........ 23
8.3 Model Rheoli Gorfodaeth ........ 23
**9.0 MONITRO AC ADOLYGU ........ 24**
**10.0 ARCHWILIO, CYNLLUN GWEITHREDU AC ADOLYGU RHWNG AWDURDODAU ........ 26**

**DIFFINIADAU**

| | | |
|---|---|---|
| CIEH | - | Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd |
| DPPW | - | Cyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd Cymru |
| EMM | - | Model Rheoli Gorfodaeth |
| FLARE | - | Sustem Basdata Gwarchod y Cyhoedd |
| HASWA | - | Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 |
| HELA | - | Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch / Pwyllgor Cyswllt Gorfodaeth yr Awdurdod Lleol |
| CID | - | Comisiwn Iechyd a Diogelwch |
| AGID | - | Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| LAC | - | Cylchlythyr Awdurdod Lleol |
| LACORS | - | Swyddfa Cydlynu Awdurdodau Lleol ar Wasanaethau Rheoli |
| LAPS | - | Cynllun Partneriaeth Awdurdodau Arweiniol |
| WLGA | - | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| RDNA | - | Regulators' Development Needs Analysis Tool |

# CYNGOR GWYNEDD

## CYNLLUN GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH 2009-10

### 1.0 CYFLWYNIAD

Mae'r Cynllun hwn ar Ymyrraeth y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch wedi'i lunio i roi sylw i'r elfen gorfodi iechyd a diogelwch yng Nghyngor Gwynedd er mwyn rheoleiddio busnesau yn sector gorfodi'r Awdurdod Lleol. Y mae gorfodaeth iechyd a diogelwch yn cael ei gario allan gan dîm bychan o swyddogion iechyd amgylched proffesiynol o fewn y Gasanaeth Gwarchod y Cyhoedd sydd wedi ei leoli oddi mewn i'r Adran Rheoleiddio. Y mae Tîm Gorfodaeth Iechyd a Diogelwch yn gweithio ochr yn ochr gyda thimoedd eraill oddi mewn i Wasanaeth Gwarchod y Cyhoedd fel y timoedd Bwyd, Trwyddedu, Gwarchod yr Amgylchedd, Safonau Masnach ac Iechyd Anifeiliaid.

Yn sector gorfodi'r Awdurdod Lleol mae amrediad eang o fusnesau – swyddfeydd, siopau, tai bwyta, adloniant a hamdden, cartrefi gofal, gwestai a warysau yn ogystal â sector iechyd a harddwch sy'n tyfu.

Mae Gwynedd yn rhoi pwyslais mawr ar letygarwch a thwristiaeth ac mae ganddi ystod eang o fusnesau adloniant a hamdden. At hyn, mae'r Cyngor wedi dechrau polisi o gynnal digwyddiadau mawr a phwysig fel modd o hyrwyddo'r ardal a, thrwy hyn, gynyddu'r llwyth gwaith o ran rheoleiddio iechyd a diogelwch sy'n hanfodol wrth gynnal enw da Gwynedd fel ardal ragorol o ran lletygarwch a thwristiaeth.

Mae AGID yn gyfrifol am orfodi'r gyfraith iechyd a diogelwch mewn ffatrïoedd, eiddo'r Cyngor, ysgolion, colegau, ysbytai, safleoedd adeiladu, amaethyddiaeth, tai ac ym mhob gweithgaredd lle mae'r gweithiwr yn teithio o un lle i'r llall.

Yn y cynllun hwn nodir gwaith manwl ar gyfer y flwyddyn i ddod fel sy'n ofynnol dan Adran 18 safon ofynnol ar gyfer awdurdodau lleol sy'n gorfodi iechyd a diogelwch a gyhoeddwyd gan AGID *(Noder: Cafodd y safon newydd ei chyhoeddi ar 1 Ebrill 2008. Y Comisiwn Iechyd a Diogelwch oedd hwn cyn yr uniad ar y 1$^{af}$ Ebrill 2008. Bellach, adwaenir y Gweithgor Iechyd a Diogelwch a'r Comisiwn Iechyd a Diogelwch fel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID)).*

Mae adran 18 (4) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ymgymryd â'u dyletswyddau yn unol ag arweiniad yr AGID.

a) Yn ôl adran 18 (4) Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974:

*''it shall be the duty of every local authority to make adequate arrangements for the enforcement within their area of the relevant statutory provisions…"*

Yn y nodiadau a gynhyrchir gan AGID dan Adran 18 (4) ceir yr egwyddorion y mae'r AGID yn dymuno i'r Awdurdodau Lleol eu mabwysiadu wrth orfodi deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch.

Yn y safon hon ceir fframwaith y dylai Awdurdodau Lleol ei weithredu fel bod yr AGID yn medru bod yn hyderus ei fod yn gwneud trefniadau priodol i orfodi

b) Ym marn yr AGID, mae'r elfennau a ganlyn yn hanfodol i Awdurdodau eu cael er mwyn cyflawni eu dyletswydd fel awdurdodau gorfodi'n ddigonol:

- Datganiad cyhoeddedig clir o bolisi ac arfer gorfodi
- Sustem ar gyfer archwiliadau cynlluniedig y rhoddir blaenoriaeth iddynt yn ôl peryglon a risgiau ac yn gyson ag unrhyw gyngor a roddir gan HELA;
- Cynllun gwasanaeth yn manylu blaenoriaethau'r Awdurdod Lleol a'i nodau a'i amcanion ar gyfer gorfodi iechyd a diogelwch – cynllun y mae'r aelodau etholedig yn cytuno iddo
- Y capasiti i edrych i mewn i ddamweiniau yn y gweithle ac i ymateb i gwynion (ceisiadau am wasanaeth)
- Trefniadau i feincnodi perfformiad gydag Awdurdodau Lleol tebyg
- Sicrhau arolygwyr hyfforddedig a chymwys
- Trefniadau i gysylltu â chydweithredu yng nghyswllt LAPS

c) Mae protocol archwilio rhyngawdurdodol wedi'i sefydlu gan HELA a fydd yn ei gwneud yn bosib i'r AGID adolygu a monitro perfformiad Awdurdodau Lleol. At hyn, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflwyno gwybodaeth benodol i'r AGID o bryd i'w gilydd pryd bydd AGID yn defnyddio'r wybodaeth honno i edrych ar berfformiad yr Awdurdodau Lleol ac i weld a ydynt yn cydymffurfio â dyletswyddau Adran 18(4).

d) Onid yw Awdurdod Lleol yn cwrdd â'i oblygiadau dan Adran 18 y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974, gall yr Ysgrifennydd Gwladol, unwaith y bydd wedi ystyried adroddiad a gyflwynwyd iddo gan yr AGID, ofyn am gael cynnal ymchwiliad cyhoeddus. Yn sgil yr ymchwiliad hwn, os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod Awdurdod Lleol wedi methu gwneud unrhyw un o'i swyddogaethau gorfodi, gall wneud gorchymyn yn datgan bod yr Awdurdod Lleol yn methu. Gall y gorchymyn gyfarwyddo'r awdurdod i wneud ei swyddogaethau gorfodi mewn modd penodol o fewn amser penodol. Os yw'r

awdurdod penodol hwn yn methu cydymffurfio gyda gorchymyn o'r fath, gall yr Ysgrifennydd Gwladol ei orfodi neu wneud gorchymyn yn trosglwyddo swyddogaethau gorfodi'r awdurdod sy'n methu i'r AGID. Mewn achos o'r fath telir treuliau'r AGID gan yr Awdurdod sy'n methu.

e) Rhaid i Awdurdodau Lleol sicrhau bod y modd y maent yn gorfodi yn gyson â pholisi'r AGID yn hyn o beth a rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd fod â pholisi gorfodi eu hunain sy'n glir ac wedi'i gyhoeddi.

f) Rhaid i arolygwyr fod â chaniatâd i wneud y gwaith y maent wedi'i benodi i'w wneud.

g) Dylid cyfeirio cwynion am swyddogion Awdurdodau Lleol at reolwr llinell arolygwr yr Awdurdod Lleol yn y lle cyntaf, yn unol â pholisi cwynion Cyngor Gwynedd.

h) Dylai'r cynllun gwasanaeth gynnwys gwybodaeth am yr isod:

- Materion pwysig ac amcanion i'r dyfodol sy'n croesi ffiniau gwasanaeth
- Rhaglenni allweddol, gan gynnwys rhaglen archwilio gynlluniedig
- Gwybodaeth am y gwasanaeth a roddir
- Y ffordd y mae'r gwasanaethau hyn am gael eu rhoi
- Unrhyw dargedau perfformiad a sut y cânt eu cyrraedd
- Adolygu perfformiad er mwyn rhoi sylw i unrhyw wyro oddi wrth gwrdd â gofynion y cynllun gwasanaeth

i) Rhaid i Awdurdodau Lleol hefyd gydymffurfio gyda gofynion "A Strategy for Workplace Health and Safety in Great Britain to 2010 and beyond", the Revitalising Health and Safety Strategy Statement, Securing Health Together and A Strategy for Improving Health and Safety in Wales. Mae'r cynllun hwn wedi'i ddatblygu i gyd-fynd â'r strategaethau hyn.

j) Mae'r adain yn gweithio mewn partneriaeth gyda Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd Cymru sy'n cynnwys cynghorau Gwynedd, Conwy, Dinbych, Fflint, Wrecsam ac Ynys Môn.

**Noder** : Nid oes dim a wnelo'r cynllun gwasanaeth hwn â chydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn fewnol yn y Cyngor.

## 2.0 NODAU AC AMCANION CORFFORAETHOL

Dyma flaenoriaethau cyffredinol yr Awdurdod a dônt o Weledigaeth a Gwerthoedd y Cyngor. Mae'r amcanion strategaethol fel a ganlyn:

***a) Creu cyfleoedd i alluogi pobl i gyflawni eu llawn botensial mewn gwaith ac mewn bywyd personol a chymdeithasol***

***b) Cyfrannu at greu economi cystadleuol, mentrus a chynaliadwy gydag amrywiaeth o gyfleoedd gwaith***

***c) Hybu gwell iechyd, gofal a lles unigolion, teuluoedd a chymunedau***

***d) Hybu cymunedau byw, diogel a chynaliadwy gyda darpariaeth addas o gartrefi, cyfleusterau a gwasanaethau***

***e) Gwarchod treftadaeth, hyrwyddo diwylliant yr ardal a hybu defnydd o'r iaith Gymraeg***

***f) Gwarchod a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig y Sir a chyfrannu at ddiogelu'r amgylchedd byd eang***

Mae'r adain iechyd a diogelwch yn hyrwyddo'r amcanion hyn ac yn cyfrannu atynt yn y ffyrdd a ganlyn :-

**a) *Creu cyfleoedd i alluogi pobl i gyflawni eu llawn botensial mewn gwaith ac mewn bywyd personol a chymdeithasol*** - Nod y cynllun hwn yw gwarchod pobl yn eu gwaith ac wrth iddynt hamddena, fel eu bod yn cael cyfleoedd bywyd ac iechyd gwell. Mae'n hanfodol gwarchod ymwelwyr i Wynedd er mwyn gwarchod a gwella enw da'r ardal fel ardal i dwristiaid. Mae hynny, ynddo'i hun, yn hanfodol i'r economi leol ac, felly, yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol. Y mae gan waith ei hun ddylanwad positif ar iechyd person, gan fod personau sydd mewn cyflogaeth neu sydd mewn preswyl da yn iachach na phersonau syn cronni.

***b) Cyfrannu at greu economi cystadleuol, mentrus a chynaliadwy gydag amrywiaeth o gyfleoedd gwaith*** - Mae diogelu iechyd a diogelwch yn y gwaith a hybu safon byw iach yn symbylydd pwysig i gynnal a gwella'r economi. Mae monitro safonau rheoleiddio a chynghori arnynt o gymorth wrth gynnal economi cynaliadwy. Y mae gweithlu iach syn rhydd o ddamweiniau, anafiadau a salwch galwedigaethol yn elfennau hanfodol go gyfer a chynnal economi hyfyw. Monitro a chynghori cyflogwyr o'r safonau rheoli a chysylltu yn uniongyrchol a gweithwyr er mwyn cynorthwyo i gynnal economi leol.

***c) Hybu gwell iechyd, gofal a lles unigolion, teuluoedd a chymunedau* -** Mae iechyd a diogelwch yn y gwaith yn un maes lle mae dyletswydd statudol i

ymgynghori gyda chyflogwyr a gweithwyr. O’r herwydd, hybir gofal iechyd a lles a chaiff pobl leol eu dwyn i mewn yn awtomatig. Y mae atal damweiniau yn y gweithle ac arbed salwch galwedigaethol dim ond yn cynorthwyo'r unigolyn, y mae hefyd yn lleihau'r byrdwn o driniaeth, y galw am ofal arbennig a drud. Y mae rhoi camau iechyd a diogelwch synhwyrol yn gallu cryfhau cymunedau yn gyffredinol.

***d) Hybu cymunedau byw, diogel a chynaliadwy gyda darpariaeth addas o gartrefi, cyfleusterau a gwasanaethau –*** Paratowyd y cynllun hwn i wella ansawdd gwasanaeth adain iechyd a diogelwch Cyngor Gwynedd a fydd yn ei dro yn gwella lefel gwasanaethau a chyfleusterau i drigolion Gwynedd ac ymwelwyr â Gwynedd.

***e) Gwarchod treftadaeth, hyrwyddo diwylliant yr ardal a hybu defnydd o’r iaith Gymraeg -*** Nid yw ansawdd cyflogaeth a boddhad wrth y gwaith yn dibynnu ar wobrwyon ariannol yn unig. Mae’n dibynnu ar weithlu cynhyrchiol, iach sy’n medru cystadlu mewn marchnad fyd-eang. Mae gweithlu cynhyrchiol ac iach yn hanfodol i warchod y dreftadaeth a hyrwyddo diwylliant yr ardal. Bydd y tîm gorfodaeth iechyd a diogelwch bob amser yn cynnig gwasanaeth, yng nghyswllt holl agweddau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith mae hyn yn hanfodol gan fod 70.19% o boblogaeth Gwynedd yn siarad Cymraeg.

***f) Gwarchod a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig y Sir a chyfrannu at ddiogelu’r amgylchedd byd eang –*** Cynhelir cymunedau hyderus sydd â hunaniaeth ddiwylliannol ac iaith gydlynol gan boblogaeth iach a ffyniannus sy’n rhydd o effeithiau clefydau a salwch galwedigaethol.

## 3.0 NODAU AC AMCANION Y TÎM GORFODAETH IECHYD A DIOGELWCH

### 3.1 Nodau ac Amcanion

Mae nodau ac amcanion y tîm gorfodaeth iechyd a diogelwch wedi'u rhoi at ei gilydd trwy ystyried yr isod:

- Safon orfodol adran 18 yr AGID ar gyfer awdurdodau gorfodi iechyd a diogelwch
- Strategaeth ar gyfer Iechyd yn y Gweithle ym Mhrydain Fawr hyd at 2010 ac wedi hynny
- Strategaeth ar gyfer Gwella Iechyd a Diogelwch yng Nghymru
- Targedau Adfywio'r AGID
- Strategaeth HELA
- Materion gorfodi lleol
- Materion craidd Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd Cymru
- Cyfadran Adnoddau – Cynllun Busnes 08/09 y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch

### 3.2 Y Nod Allweddol

Defnyddio adnoddau'n effeithiol trwy orfodi ac addysgu, hyrwyddo gwaith cydymffurfio gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch galwedigaethol a sicrhau bod y rhai â dyletswydd yn gwarchod iechyd a diogelwch pobl yn y gwaith a phobl y gallant gael eu niweidio gan weithgareddau yn y gwaith, er enghraifft y cyhoedd.

### 3.3 Amcanion

- Cyfrannu at ostwng anghydraddoldeb iechyd.
- Cyfrannu at Sir sy'n ddiogel i drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr.
- Codi safonau iechyd, diogelwch a lles yn sector gorfodol yr awdurdod lleol trwy ddefnyddio rhaglen archwilio sy'n seiliedig ar risg a dargedwyd a strategaethau ymyrraeth.
- Codi ymwybyddiaeth iechyd a diogelwch yn y gweithle yn unol â strategaethau cenedlaethol.
- Cyfrannu at gyrraedd Targedau Adfywio'r AGID.

- Ystyried pob damwain y rhoddir gwybod amdani ac edrych i mewn i ddamweiniau angheuol a mawr yn unol â Strategaeth HELA ac Agenda Cyfiawnder Cenedlaethol.
- Ymateb i bob cais am wasanaeth ac ymholiad yn amserol ac effeithlon.
- Rhoi'r hyfforddiant a'r oruchwyliaeth y credir sy'n angenrheidiol i gwrdd â lefelau gallu statudol ar gyfer swyddogion gorfodi. Hyrwyddo defnydd yr offeryn 'Regulators' Development Needs Analysis Tool' (RDNA).
- Adolygu a chynnal trefniadaethau ar bapur er mwyn gwella cysondeb ac ansawdd gorfodaeth.
- Codi ymwybyddiaeth i iechyd a diogelwch galwedigaethol trwy weithio gyda phartneriaid eraill gan gynnwys cyrff gorfodi eraill, cyfryngwyr, budd-ddeiliaid lleol a'r cyhoedd.
- Hyrwyddo gwybodaeth am iechyd a diogelwch gan ddefnyddio amryfal gyfryngau ac adnoddau.
- Rheoli adnoddau'r adain iechyd a diogelwch yn effeithiol er mwyn rhoi gwasanaeth cost effeithiol o safon.
- Sicrhau for penderfyniadau camau gorfodaeth yn gyson gydag anghenion polisi gorfodaeth gwarchod y cyhoedd, datganiad polisi gorfodaeth y GID ar model rheoli gorfodaeth (EMM). (I sicrhau gorfodaeth cymesur, cyson, tryloyw ac atebol - Rhan o'r agenda Gwell Rheolaeth).

## 4.0 GORFODI IECHYD A DIOGELWCH

### 4.1 Gorfodaeth

Bydd unrhyw gamau gorfodi’n cael eu cymryd yn unol â Pholisi Gorfodi Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd, y Concordat Gorfodi a’r Model Rheoli Gorfodaeth Iechyd a Diogelwch.

Mae’n bosib y gall darparwyr allanol roi hyfforddiant iechyd a diogelwch i fusnesau yng Ngwynedd. Mae modd cael gwybodaeth am ddarparwyr hyfforddi gan y tîm iechyd a diogelwch.

Lle ceir Cynllun partneriaeth awdurdod arweiniol (LAPS) neu awdurdod cynradd, bydd Cyngor Gwynedd yn ymgynghori gyda’r awdurdod arweiniol cyn cymryd camau gorfodi a all fod ag arwyddocâd cenedlaethol. Nid oes gan yr adran drefniadau awdurdod arweiniol ac awdurdod cynradd ar hyn o bryd.

Bydd yr eiddo’n cael ei archwilio yn unol â difrifoldeb y risg – po fwyaf yw’r risg, yr amlaf y bydd yr eiddo’n cael ei archwilio yn unol â LAC 67/1 HELA (diw 3).

### 4.2 Proffil Eiddo Masnachol

| Categori Risg | A | B1 | B2 | B3 | B4 | C | HEB SGÔR | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr Eiddo hyd at 01/04/08 | 31 | 582 | 1118 | 1203 | 834 | 181 | 42 | **3991** |

**(Categorïau fesul LAC 67/1 HELA (diw3) - http://www.hse.gov.uk/lau/lacs/67-1rev3.htm)**

### 4.3 Archwiliadau

Yn 2008/09 ymwelodd y tim gorfodaeth iechyd a diogelwch â 733 o fusnesau ,roedd hyn yn cynnwys 27 o ymweliadau i edrych i mewn i ddamweiniau. Cyflwynwyd 175 o rybuddion anffurfiol, 6 rhybudd gwella a chyflwynwyd 5 rhybudd gwahardd yn syth fel camau gorfodi. Mae hyn yn cymharu gyda 1292 o ymweliadau i fusnesau, 381 o rybuddion anffurfiol, 12 rhybudd gwella a 6 rhybudd gwahardd yn syth yn 2007/2008.

Yn ystod 09/10 nod y tim gorfodaeth iechyd a diogelwch yw cynnal archwiliadau rhaglenedig ar 100% o eiddo categori risg uchel. Bydd archwiliadau o eiddo risg arall yn cael ei cynal yn unol ac angenion LAC 67/1 (rev 3) lle bydd o leiaf 300 o archwiliadau yn cael ei cynal. Bydd archwiliadau yn cael ei cynal ar y cyd gydag ymweliadau ymyraeth hylendid bwyd lle maen bosibl.

Trwy ei raglen Adfywio Iechyd a Diogelwch, mae AGID wedi nodi’r isod fel peryglon y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt trwy ddadansoddi data ar ddigwyddiadau cenedlaethol:

- Syrthio o fannau uchel
- Cludiant y gweithle
- Anhwylderau Cyhyrysgerbydol
- Llithriadau a Bagliadau
- Straen

Yn ystod eu harchwiliadau mae disgwyl i Awdurdodau Lleol ganolbwyntio ar y pynciau adfywio er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r materion blaenoriaeth hyn ymhlith y rhai hynny sydd â dyletswydd. Bydd yr archwilwyr yn canolbwyntio ar y pynciau hyn yn ystod yr archwiliadau.

Byddir yn ystyried materion lleol a chydnabyddir hyn gan yr AGID a HELA. Mae'r ddau gorff hyn yn derbyn bod raid i Awdurdod Lleol ddefnyddio rhyw gymaint o hyblygrwydd er mwyn bodloni materion ac anghenion diogelwch lleol.

Yng Ngwynedd, mae nifer fawr o fentrau bychan / canolig eu maint mewn llecynnau 2548 km sgwâr. Mae nifer o'r rhain yn dymhorol ac, o'r herwydd, caiff nifer o weithwyr tymhorol eu denu i'r sir yn ystod y gwyliau a'r haf yn ogystal â nifer fawr o ymwelwyr. O'r herwydd, mae iechyd a diogelwch y cyfryw weithwyr tymhorol / ymwelwyr o bwys mawr.

Felly, bydd yr adran, yn ychwanegu tair ardal allweddol arall a fydd hefyd yn cael eu targedu yn ystod yr archwiliadau. Bydd y rhain yn cynnwys y meysydd a ganlyn :-

- Risgiau trydydd parti
- Asbestos
- Lles y staff

### 4.4 Damweiniau a Chwynion

Ymchwilir i bob damwain y rhoddir gwybod amdani yn unol â Pholisi Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd ac arweiniad a threfniadaeth HELA.

Yn 2007/2008 ymchwiliwyd i 83 o ddamweiniau gennym y rhoddwyd gwybod amdanynt, , un oedd yn angheuol.

Yn 2008/2009 ymchwiliwyd i 113 o ddamweiniau a rhoddwyd gwybod amdanynt, nid oedd un yn angheuol.

Yn ystod 2009/10 nod y tim gorfodaeth iechyd a diogelwch yw :

a) Ymchwilio i bob marwolaeth y rhoddir gwybod i ni amdani gan ddechrau'r gwaith cyn pen un diwrnod gwaith.

b) Ymchwilio i 100% o anafiadau difrifol y rhoddir gwybod amdanynt; damweiniau yn sgil llithro, baglu, syrthio o uchder, cludiant y gweithle ac anhwylderau cyhyrysgerbydol, a hynny yn unol â blaenoriaethau lleol a rhai HELA a chyn pen pum diwrnod gwaith.

c) Ymchwilio i anafiadau difrifol a digwyddiadau peryglus eraill y rhoddir gwybod amdanynt, a hynny yn unol â blaenoriaethau lleol a rhai HELA a chyn pen pum diwrnod gwaith.

d) Ymchwilio i ddigwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt ac a ddigwyddodd dri diwrnod neu fwy yn ôl, a hynny yn unol ag arweiniad HELA, Polisi Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd, blaenoriaethau lleol a chyn pen deng niwrnod gwaith lle bo adnoddau'n caniatáu

Ymchwilir i bob cwyn iechyd a diogelwch yn unol â Polisi Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd. Ein nod yw ymateb i gwynion cyn pen pum diwrnod gwaith.

Yn:

- 2007/2008 derbynwyd 224 cwyn
- 2008/2009 derbynwyd 113 cwyn

Bydd y tim gorfodaeth iechyd a diogelwch yn defnyddio gwahanol gamau i ymateb i gwynion – yn eu plith, o bosib, ymweliadau, cyngor dros y ffôn, taflenni ymgynghorol neu gyfeirio at yr asiantaeth / arolygwyr priodol.

**4.5 Gweithio mewn Partneriaeth gyda'r AGID**
Gwnaed addewid ffurfiol i'r AGID y bydd Gwynedd yn gwneud ymrwymiad i Raglen Strategol Fit3 *(Fit for Work, Fit for Life, Fit for Tomorrow)* sy'n cynnwys y flwyddyn 2009/2010.

Mae'r addewid yn ymrwymo fel a ganlyn :

**Ymgyrch 'Takeaway Slips' (Ebrill 2009 – Mehefin 2009)**
Y nod yw ymweld ac isafswm o 25 o westai ac eiddo 'takeaway' . Mae'r ymgyrch hon yn targedu iechyd a diogelwch yng nghyswllt llithro a baglu ac yn dilym ymlaen o ymgyrch 'Takeaway Slips' 08/09. Y maer ymgyrch yma yn rhan o ymgyrch Gymru gyfan ble mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cyfrannu ir ymgyrch.

**Diogelwch Nwy mewn Eiddo Masnachol (Ebrill 2009 – Mawrth 2010)**
Y nod yw cynnal isafswn o 25 o ymweliadau. Mae'r ymgyrch hon yn targedu iechyd a diogelwch yng nghyswllt diogelwch nwy mewn eiddo masnachol. Yng Ngwynedd oherwydd natur yr eiddo bydd y ffocws or faesydd carafannau.

**Syrthio o Uchder – Gosod Erials (Ebrill 2009 – Mawrth 2010)**
Y nod yw parhau i archwilio erials ac offer lloeren ac ymestyn y cynllun iddo gynnwys camerâu cylch cyfyng a larymau. Treulio o leiaf un diwrnod ar waith ymyrraeth ragweithiol. Nod yr ymgyrch hon fydd gostwng nifer yr anafiadau ac afiechydon yn sgil gweithio ar fannau uchel.

**Cartrefi Gofal (Awst 2009 – Tachwedd 2009)**
Y nod yw cyfranu i 1 diwrnod ymwybyddiaeth diogelwch a iechyd (SHAD) ac un diwrnod hyfforddiant ar gyfer yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), Swyddogion Contractau Lleoliad Llywodraeth leol ac Swyddogion Lleoliad y Bwrdd Iechyd Lleol. Cynnal isafswm o 25 o ymweliadau i gartrefi gofal. Nod yr ymgyrch hon fydd gostwng nifer yr anafiadau ac afiechydon yn sgil trafod a thrin, defnydd o rheilen gwlau,legionella, asbestos, llithro a baglu a dermatitis.

**Trais yn yr Economi Nos (Tachwedd 2009 – Ionawr 2010)**
Y nod yw cynnal isafswn o 25 o ymweliadau. Y maer ymgyrch hon yn targedu iechyd a diogelwch mewn perthynas a llywodraethu a rheoli trais yn y sector fusnes economi nos. Bydd yr ymgyrch yn golygu byd weithio gydar Adain Drwyddedu o Gyngor Gwynedd a heddlu Gogledd Cymru yn ogystal a chyfrannu tuag at Strategaeth Diogelwch Cymunedol yng Ngwynedd.

**Legionella (Ebrill 2009 – Mawrth 2010)**
Y nod yw cwblhau cynllun a threfniadaethau a rheoli'r haint legionella ledled Gogledd Cymru. Archwilio isafswm o 10 eiddo sydd mewn risg uchel o gael legionella. Nod yr ymgyrch hon yw gostwng nifer yr afiechydon yn sgil legionella.

**Carbon Monocsid a Tai (Ebrill 2009 – Mai 2009)**
Y nod yw cyfranu at wella cydweithio a dealltwriaeth o orfodaeth diogelwch nwy rhwng Adeiniau Tai Llywodraeth Leol ar GID. I roi mewnbwn i 1 diwrnod ymwybyddiaeth diogelwch a iechyd (SHAD). Nod yr ymgyrch hon fydd gostwng nifer yr anafiadau ac afiechydon yn sgil nwy.

**Asbestos (Ebrill 2009 – Mawrth 2010)**
Y nod yw treulio o leiaf 50 awr ar addysg a chefnogaeth. Nod yr ymgyrch hon yw gostwng nifer yr afiechydon yn sgil asbestos.

**Nwy Radon (Ebrill 2009 – Mawrth 2010)**
Y nod yw treulio o leiaf 50 awr ar addysg a chefnogaeth. Nod yr ymgyrch hon yw gostwng nifer yr afiechydon yn sgil nwy radon.

### 4.6 Cynlluniau arbennig

**Diogelwch Digwyddiadau (Mai 2009 – Awst 2009)**
Y nod yw i ryngweithio a trefnwyr y digwyddiadau mwyaf yng Ngwynedd ac ymweld ac o leiaf 3 or digwyddiadau mwyaf yng Ngwynedd. Yng Ngwynedd y

maencael ei adnabod bod digwyddiadau yn chware rhan bwysig yn yr economi leol, y mae felly yn bwysig iawn y bod digwyddiadau yn cael ei trefnu ai rhedeg mewn ffyrdd saff. Y maer ymgyrch hon yn targedu iechyd a diogelwch parthed diogelwch digwyddiadau.

**Diogelwch Dŵr Pyllau Nofio (Mehefin 2009 – Awst 2009)**
Y nod yw cynnal isafswn o 20 o ymweliadau i eiddo sydd gyda pyllau nofio yng Ngwynedd a chymeryd samplau o ddŵr ar gyfer monitro ansawdd microbiolegol y dŵr, lle na fydd ansawdd y dŵr yn foddhaol dilyn fynnu gydar camau gorfodaeth perthnasol. Yng Ngwynedd mae'n cael ei adnabod fod y diwydiant hamddena yn chware rhan bwysig yn yr economi leol, y mae felly yn bwysig iawn y bod actifedd diwydiant hamdden fel nofio yn cael ei rheoli yn ddigonol parthed iechyd a diogelwch. Y maer ymgyrch hon yn targedu iechyd a diogelwch parthed ansawdd microbiolegol dŵr pyllau nofio.

### 4.7 Gweithgareddau Hyrwyddo/Addysgol Iechyd a Diogelwch
Bydd y tim gorfodaeth iechyd a diogelwch yn cynnal ac yn ailddylunio ei gwefan fel ei bod yn cynnwys gwybodaeth mwy perthnasol am iechyd a diogelwch a chysylltiadau i wefan yr AGID. Bydd gwefan yn rhan o wefan gorfforaethol gyffredinol y Cyngor.

### 4.8 Cyngor i fusnesau
Lle bo'n bosib, bydd y tim gorfodaeth iechyd a diogelwch yn barod ei chyngor i fusnesau ond iddynt ofyn amdano; gallant hefyd droi ati am wybodaeth. Byddir yn ymweld â safleoedd yn ystod cyfnodau cynllunio a chreu gwaith addasu i eiddo, fel bo'r angen.

### 4.9 Cysylltu gyda mudiadau eraill
Bydd y tim gorfodaeth iechyd a diogelwch yn parhau i gymryd rhan weithgar yng Ngrŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd Cymru a chyfrannu'n frwd i'r grŵp – grŵp technegol dan Gyfarwyddwyr Gwarchod y Cyhoedd Cymru (DPPW).

Bydd yr tim gorfodaeth iechyd a diogelwch yn cysylltu gydag Awdurdodau Lleol eraill, yr GID, yr Adran dros Fasnach a Diwydiant a LACORS fel bo'r gofyn.

### 4.10 Ymgynghori â Budd-ddeiliaid a Gweithio mewn Partneriaeth â nhw
Yn ystod 2008/09 bydd yr tim gorfodaeth iechyd a diogelwch yn cynnal arolwg o fodlonrwydd cwsmeriaid. Gweithredir ar unrhyw wybodaeth berthnasol gan fudd-ddeiliaid fel bo'n briodol.

### 4.11 Gorfodaeth deddfwriaeth di-fwg
Y maer tim gorfodaeth Iechyd a Diogelwch yn gyfrifol am orfodi y Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) 2007. Y mae gwaith gorfodaeth yn cael ei gynal pan yn ymweld ac eiddo ac ble maer angen yn adweithiol.

### 4.12 Gweithgareddau Eraill

Bydd y tîm gorfodaeth iechyd a diogelwch yn parhau i:

- Sicrhau y cedwir manylion cofnodiadau ar eiddo yn gywir a chyfredol (cofnodiadau electronig ac ar bapur).
- Datblygu trefniadaethau iechyd a diogelwch newydd a gyflwynir i'n budd-ddeiliaid ac adolygu'r rhai presennol yn rheolaidd.
- Datblygu taflenni a phecynnau gwybodaeth newydd a roddir i'n budd-ddeiliaid ac adolygu'r rhai presennol.
- Rheoli llyfrgell iechyd a diogelwch yr a'i diweddaru.
- Datblygu hyfforddiant strwythuredig ar iechyd a diogelwch i staff a gweithredu arno.
- Cynnal cyfarfodydd iechyd a diogelwch amserol lle bo'n bosib ac yn ofynnol adolygu blaenoriaethau, camau a pherfformiad.

## 5.0 ADNODDAU'R TÎM GORFODAETH IECHYD A DIOGELWCH

### 5.1 Adnoddau

Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, Swyddogion Iechyd a Diogelwch a Swyddogion Technegol o'r tîm gorfodaeth iechyd a diogelwch sy'n gyfrifol am orfodi Iechyd a Diogelwch. Mae gan y staff hyn ystod amrywiol o ddyletswyddau a chyfrifir bod swyddogion sy'n cyfateb i chwe swyddog llawn amser yn gwneud y gwaith hwn. O'r swyddogion hyn mae swyddogion sy'n cyfateb i bedwar swyddog llawn amser yn archwilwyr.

### 5.2 Nifer y Staff

| | **Nifer** |
|---|---|
| Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd | 6 |
| Swyddogion Iechyd a Diogelwch | 1 |
| Swyddogion Technegol | 2 (1 Carafán) |
| Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (Bwyd ac I a D) | 1 |
| **CYFANSWM** | **10** |

### 5.3 Siart Strwythur y Sefydliad

Pennaeth Gwasanaeth Adran Rheoleiddio
▼
Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd
▼
Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd – Bwyd ac Iechyd a Diogelwch
▼
Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd, Swyddog Iechyd a Diogelwch
Swyddog Technegol, Swyddog Trwyddedu Meysydd carafannau
a Staff Gweinyddol

### 5.4 Lefelau'r Arbenigedd

Mae'r tîm gorfodaeth Iechyd a Diogelwch yn cynnwys swyddogion proffesiynol sydd wedi cael hyfforddiant penodol mewn iechyd a diogelwch i gynnal eu medrusrwydd ac mae ganddynt sylfaen eang o brofiad.

### 5.5 Gwasanaethau Arbenigol

Mae modd comisiynu gwasanaethau arbenigol i wneud tasgau penodol pan fo'r gofyn e.e. cymryd sampl o asbestos a dadansoddi cemegau.

### 5.6 Datblygu Staff

Yn ystod 2009/10 bydd swyddogion yn cael hyfforddiant allanol a mewnol strwythuredig ar gyfer eu datblygiad proffesiynol parhaus. Bydd pob aelod o staff proffesiynol yn cael o leiaf bymtheg awr o hyfforddiant a staff gweinyddol yn cael

o leiaf dair awr. Ar gyfer 2009/10 bydd yr offeryn offeryn ‘Regulators’ Development Needs Analysis Tool’ (RDNA) yn cael ei hyrwyddo er mwyn gwella a chynal lefel hyfforddiant a cymwysedd swyddogion.

**5.7 Adnoddau Ariannol 09/10**

£ 307,790 yw cyfanswm cost gros y tim gorfodaeth iechyd a diogelwch gydag 80% o gyfanswm y gost yn mynd ar gostau staffio. Mae cyfanswm cost gros y tim gorfodaeth iechyd a diogelwch oddeutu £2.60 fesul unigolyn yng Ngwynedd, yn seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn 2005.

## 6.0 GWASANAETHAU I'W RHOI GAN Y TIM GORFODAETH IECHYD A DIOGELWCH

### 6.1 Lefel y Gwasanaeth

Mae’r tim yn cynllunio i roi lefel o wasanaeth a ddiffinnir yn yr Adain 18 newydd - Safonau ar gyfer Awdurdodau Gorfodi Iechyd a Diogelwch a’r Safonau Arfer Gorau (Gwella Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd yng Nghymru) a ddiffinnir gan y meini prawf, sef safonau a gydnabyddir yn genedlaethol ac a lunnir mewn cydweithrediad â’r DPPW a’r Gymdeithas Siartredig Iechyd Amgylchedd (CIEH).

### 6.2 Manylion y Gwasanaeth

Mae pedwar math o wasanaeth y mae awdurdodau lleol yn eu rhoi. Cânt eu gyrru gan alwadau, archwiliadau, addysg a gwybodaeth

**a) Galwadau**

- Trwyddedau a hawliau
- Damweiniau a digwyddiadau peryglus
- Ceisiadau am wasanaeth, cwynion yn erbyn eiddo, cwynion a sylwadau am wasanaeth
- Blaenoriaethau HELA

Bydd y tîm yn:

- Gwneud trefniadau i drwyddedu a rhoi caniatâd i’r holl fusnesau hynny sy’n gwneud ceisiadau ac yn cwrdd â safonau.
- Ymchwilio i ddamweiniau / digwyddiadau peryglus yn unol â sustem flaenoriaethu a nodir yn ein gweithdrefnau. Ni fyddir yn ymchwilio i bob damwain / digwyddiad peryglus ond bydd pob un yn cael ei asesu a chaiff y rheswm dros beidio ag ymchwilio i’r achos ei gofnodi.
- Ymateb i bob cais gan wasanaeth, cwynion gan fusnesau a gwasanaethau. Byddwn hefyd yn edrych i mewn i gwynion yn erbyn polisïau / swyddogion yr awdurdod lleol. Mae’r prosesau hyn yn cael eu nodi yn ein trefn gwyno.
- Lle bo’n briodol, cynnwys blaenoriaethau HELA ymhob archwiliad o weithle.

**b) Archwiliadau**

- Archwilio eiddo.

- Bydd pob archwiliad yn hyrwyddo blaenoriaethau HELA a byddir yn cymryd y camau priodol pan ganfyddir diffygion.
- Lle bo raid, bydd swyddogion yn archwilio eiddo yn sgil cwynion, ceisiadau, prosiectau neu rybuddion RIDDOR.

**c) Addysg**

- Gweithgareddau hyrwyddo.
- Materion lleol y mae brys iddynt neu sydd o flaenoriaeth uchel.

Bydd y tîm yn:

- Codi ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch trwy gynnal rhaglen o weithgareddau hyrwyddo, peirianwaith cyfathrebu ac ymgynghori.
- Ymateb i faterion lleol brys gydag ymgyrchoedd hysbysebu.
- Datblygu gwefan y tîm gorfodaeth iechyd a diogelwch er mwyn bod yn ffynhonnell wybodaeth ragorol i fusnesau.

**d) Gwybodaeth**

- Arolygon ac ymgynghoriadau.
- Gweithio gyda phobl sydd â dyletswydd ac yn enwedig felly fentrau bychain.
- Cynlluniau lleol arbennig.
- Cynllun partneriaeth awdurdod arwain.

Bydd y tîm yn:

- Datblygu peirianwaith cysylltu gyda Mentrau Bychan/Canolig eu maint. Bydd yn well gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na mynd ar eich trywydd eich hun a byddwn yn gwneud trefniadau i fwrw ymlaen gyda'r cynllun hwn.
- Arfarnu gwybodaeth a geir yn ôl gan gwsmeriaid a defnyddio'r wybodaeth i wneud gwelliannau i'r tîm gorfodaeth iechyd a diogelwch. Bydd y tîm gorfodaeth iechyd a diogelwch yn gweithredu'n gyflym lle bo'n bosib ac o fewn ei hadnoddau. Bydd hefyd yn casglu tystiolaeth o ffynonellau eraill i gyfiawnhau newid y tîm.

**e) Blaenoriaethau**

Bydd blaenoriaethau'n cael eu gosod yn unol ag anghenion lleol a chenedlaethol.

## 7.0 GWAITH SY'N ANGENRHEIDIOL I SICRHAU Y RHODDIR GWASANAETH DIGONOL

### 7.1 Cysondeb

Mae’r adain yn anelu at fod yn gyson ac i wneud hyn defnyddir sustem fonitro fewnol.

Bydd y tîm yn ceisio bod yn dryloyw ym mhopeth y mae’n ei wneud yn amodol ar lynu wrth ofynion cyfreithiol perthnasol h.y. gwarchod data a chyfrinachedd masnachol.

### 7.2 Tryloywder

Nod y tîm yw bod yn agored a thryloyw a glynu wrth yr holl ofynion cyfreithiol perthnasol ac yn unol â pholisïau corfforaethol.

### 7.3 Targedu a Chyfrannedd

Bydd y tîm yn canolbwyntio ar gamau lle mae’r risg ar ei uchaf neu o bwys lleol. Bydd yr adain yn cymryd camau sy’n gymesur â’r risg a sicrhau y cydymffurfir â’r rheolau, gan roi sylw i’r risgiau mwyaf difrifol lle nad yw’r peryglon yn cael eu rheoli cystal. Nodir hyn yn fanwl ym mholisi gorfodi Gwarchod y Cyhoedd.

### 7.4 Atebolrwydd (ei gwneud yn glir pwy sy’n gyfrifol)

Bydd yr adain yn annog safonau uwch yn y gweithle a rhaid sicrhau bod y rhai hynny sydd â dyletswydd, boed yn gyflogwyr neu’n weithwyr, yn deall eu cyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch. Bydd canlyniad pob archwiliad yn cael ei drafod gyda’r cyflogwr, cynrychiolydd y gweithiwr neu, fel arall, sicrheir y cyfathrebir yn briodol gyda’r gweithlu lle bo raid.

Mae’r adain yn atebol i aelodau etholedig yn y strwythur corfforaethol.

### 7.5 Medrusrwydd a Hyfforddiant

Mae’r adain yn cynnal matrics medrusrwydd sy’n tanlinellu sgiliau pob swyddog. Defnyddir hwn i sicrhau bod swyddogion wedi cael digon o hyfforddiant, yn ddigon medrus ac wedi’u hawdurdodi’n gywir. Ar gyfer 2009/10 bydd yr offeryn offeryn ‘Regulators’ Development Needs Analysis Tool’ (RDNA) yn cael ei hyrwyddo er mwyn gwella a chynal lefel hyfforddiant a cymwysedd swyddogion.

### 7.6 Cadw Data a Chofnodiadau

Mae’r adain yn datblygu’r sustem FLARE ar gyfer cofnodiadau data Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach. Crëir y rhaglen archwilio iechyd a diogelwch o’r data-bas masnachol yn y sustem hon. At hyn, cedwir y rhan fwyaf o wybodaeth sy’n ymwneud ag eiddo yn FLARE.

Mae staff yr adain yn mewnbynnu manylion yr ymchwiliadau, damweiniau, ceisiadau gan wasanaethau ac ati. Trwy ddilyn y drefn, mae staff yr adain, wrth

weithio ar gyfrifiadur, yn creu ac yn diweddaru eiddo, yn gwneud i ffwrdd ag o ac yn defnyddio gwybodaeth o ffynonellau cynllunio, rheoli adeiladu a threthi busnes i ddiweddaru'r bas-data ac gan anfon pecynnau gwybodaeth.

**7.7 Cynaladwyedd**

Bydd y tîm yn sicrhau y bydd ein camau a'u canlyniadau yn gynaliadwy, nid o ran yr amgylchedd yn unig ond o ran yr economi ac iechyd hefyd.

## 8.0 POLISI GORFODI

### 8.1 Concordat Gorfodi

Mae'r Awdurdod wedi llofnodi'r Concordat Gorfodi.

### 8.2 Polisi Gorfodi

Mae gan y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd bolisi gorfodi ar gyfer arfarnu pa mor briodol yw camau gorfodi ac mae'n ymwneud â gorfodi fesul cam. Bydd y polisi hwn yn cael ei ddefnyddio ym mhob achos lle caiff camau cyfreithiol eu hystyried.

### 8.3 Model Rheoli Gorfodaeth

Caiff y model hwn ei ddefnyddio ym mhob achos lle caiff camau cyfreithiol eu hystyried.

## 9.0 MONITRO AC ADOLYGU

Bydd y cynllun cyflwyno gwasanaeth yn cael ei adolygu o leiaf bob blwyddyn ac adroddir ar hyn i'r pwyllgor trwyddedu. Bydd yr adolygiad yn cysylltu i mewn i'r broses cynllunio busnes blynyddol.

Monitrir perfformiad yn fisol gydag adolygiad rheolaethol chwarterol o'r cynnydd.

Monitrir perfformiad gan ddefnyddio'r dulliau a ganlyn:

- Monitro perfformiad yn erbyn targedau'r gwasanaeth a'r swyddogion
- Monitro arferion gweithio gwirioneddol yn erbyn trefnau a phrotocolau ar gyfer
  - Archwilio busnesau
  - Ymchwilio i mewn i gwynion a hysbysiadau o ddamweiniau
  - Gorfodi
- Ymgymryd ag arolygon boddhad cwsmer ar gyfer meysydd perthnasol o'r gwasanaeth iechyd a diogelwch. Roedd lefel perfformiad 08/09 (ar y 06\04\09) yn 92.4%.

<u>Trefniadau Monitro</u>

Ymgymerir â monitro perfformiad drwy gynhyrchu adroddiadau misol o'r bas data FLARE ar:

- Archwiliadau/ymyraethau o gymharu yn erbyn y rhaglen.
- Cofnodion archwiliadau/ymyraethau ar gyfer pob swyddog yn ogystal a proffil risg yr archwiiadau a gwblhawyd.
- Ceisiadau am wasanaeth ble nad oes ymateb wedi digwydd.
- Ceisiadau am wasanaeth sydd dal yn agored.
- Archosion cyfreithiol sydd yn symud ymlaen.
- Rhydyddion sydd dal yn agored.
- Damweiniau ble nad oes ymateb wedi digwydd.

Bydd arferion gwaith yn cael eu monitro'n rheolaidd drwy gyswllt agos rhwng y swyddogion diogelwch bwyd a'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd a thrwy:

- Gyflwyno adroddiadau arolygu yn cynnwys copïau o lythyrau i'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd er mwyn craffu o leiaf 2%.

- Craffu o leiaf 2% o ffeiliau hysbysiadau cwynion/ ceisiadau gwasanaeth a damweiniau.

• Cyfeirio materion cynhennus a gorfodi ffurfiol i'r Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd / Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd am gadarnhad o'r camau gweithredu fydd yn cael eu cymryd.

• O leiaf un arolwg ar y cyd blynyddol rhwng Swyddogion Iechyd a Diogelwch ac o leiaf un arolwg monitro blynyddol rhwng y Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd a phob un Swyddog Iechyd a Diogelwch.

## 10. ARCHWILIO, CYNLLUN GWEITHREDU AC ADOLYGU RHWNG AWDURDODAU

Mae'r tim gorfodaeth iechyd a diogelwch yn cymryd rhan yng nghynllun rhyngawdurdodol Grŵp Iechyd a Diogelwch Gogledd Cymru.

Cynhaliwyd archwiliad rhwng yr awdurdodau ar yr adain iechyd a diogelwch ym mis Tachwedd 2004 ac yn sgil hyn lluniwyd cynllun gweithredu.

Cafodd y cynllun gweithredu ei gyflwyno i'r AGID ar y 3$^{dd}$ o Orffennaf 2006. Mae holl bwyntiau archwilio'r cynllun gweithredu wedi'u bodloni.